Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Prif Swyddog Cyllid,

Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru

Parc Cathays / Cathays Park
Caerdydd / Cardiff
CF10 3NQ

Dyddiad / Date: 17 Ebrill 2024

Annwyl Syr/Madam,

**DERBYNIADAU'R DRETH GYNGOR AC ARDRETHI ANNOMESTIG (CTC, 2023-24)**

Heddiw byddwn yn anfon e-bost at ein cyswllt yn eich Awdurdod yn cynnwys taenlen ar gyfer yr wybodaeth uchod. Cais am wybodaeth o dan adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yw'r daenlen a dylid ei llenwi a'i dychwelyd erbyn **7 Mai 2024**. Byddwch cystal â nodi nad oes angen copi wedi'i lofnodi bellach.

**Defnyddio'r data**

Caiff gwybodaeth ei defnyddio i fonitro cyfraddau casglu ar gyfer y dreth gyngor ac ardrethi annomestig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24. **Caiff cyfraddau casglu'r dreth gyngor eu cyhoeddi mewn Datganiad Ystadegol Cyntaf gan Lywodraeth Cymru ym Mehefin 2024** ac, ynghyd â gwybodaeth am gasglu ardrethi annomestig, cânt eu cyhoeddi ar wefan StatsCymru.

Caiff gwybodaeth o'r ffurflen ei rhoi i gyrff megis y Comisiwn Archwilio; Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Uned Ddata Llywodraeth leol ac adrannau eraill o'r llywodraeth ganolog.

**Cyfeiriad cyswllt**

Byddwch cystal ag e-bostio copi o'r daenlen wedi'i llenwi, erbyn 7 Mai 2024 i:

YCLLL.trosglwyddo@llyw.cymru

Diolch ichi ymlaen llaw am eich cydweithrediad wrth lenwi a dychwelyd y ffurflen hon.

Yn gywir,

**Anthony Newby**

0300 025 3963
Local Government Finance Statistics / Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol
Welsh Government / Llywodraeth Cymru